

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

PANEL ADOLYGU PERFFORMIAD Y PRIF WEITHREDWR

2pm, 23 Medi 2020

Cyfarfod Rhithiol

Yn Bresennol:

Cyngh Paul Harries (Cadeirydd)

Cyngh Di Clements (Dirprwy Gadeirydd)

Dr Rachel Heath-Davies (Dirprwy Gadeirydd, Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol) (yn cymryd nodiadau)

Mr Tegryn Jones (Prif Weithredwr)

Nodiadau'r cyfarfod:

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Roedd pob Aelod yn bresennol felly ni fu unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

2. Datgan Buddiannau

Ni ddatganodd yr Aelodau unrhyw fuddiannau.

3. Eithrio'r cyhoedd

Cytunwyd i eithrio'r cyhoedd o'r eitem nesaf gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

4. Adolygiad o berfformiad y Prif Weithredwr

Roedd yr Aelodau wedi adolygu'r camau ymlaen a gymerwyd gan y Prif Weithredwr yn erbyn y deg o amcanion y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod adolygu diwethaf. Roedd y Prif Weithredwr wedi cyflwyno'i adroddiad ymlaen llaw cyn y cyfarfod i'r Aelodau ei ystyried, a chynigiodd y Cadeirydd ei fod yn mynd â'r pwyllgor drwy'r deg o amcanion fesul amcan. Nodir isod y prif bwyntiau a godwyd:

1. Adolygu a rheoli adnoddau'r Awdurdod, gan ystyried effaith COVID19 ac i gynnwys proses o archwilio opsiynau gyda chyfranogiad yr Aelodau gyda'r bwriad o bennu cyllideb gytbwys yn 2021- 22.

Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau ei fod o'r farn bod yr Awdurdod mewn sefyllfa ariannol gryfach ar hyn o bryd o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol. Roedd yr Awdurdod wedi wynebu sefyllfa bosibl o

ostyngiad o £1m yn yr incwm, ond bellach bod y swm hwn yn nes at £300,000. Roedd codi rhai o gyfyngiadau'r cyfnod clo dros yr haf wedi golygu bod y canolfannau wedi gallu agor a chreu incwm yn ystod yr adeg honno.

Hefyd dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi llwyddo i sicrhau £1m o gyllid cyfalaf ychwanegol dros y misoedd diwethaf hyn ar gyfer manau ychwanegol i wefru cerbydau.

Yn ystod cam cyntaf y pandemig, roedd o'r farn bod proffil y Parc wedi cynyddu gyda llawer mwy o bobl yn ymweld â'r ardal a hefyd bod mwy o sylw na chynt i'r ardal ar y cyfryngau a gan Weinidogion. Cytunodd y pwyllgor ei bod yn bwysig manteisio ar hyn ac achub ar y cyfle.

2. Codi graddfa'r uchelgais gyda'r staff drwy archwilio ffynonellau newydd o gyllido a ffyrdd newydd o weithio.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod hyn wedi bod yn heriol yn yr hinsawdd sydd ohoni. Cyfeiriodd at yr enghraifft o'r £1m ychwanegol o ariannu i ddangos bod graddfa'r uchelgais wedi codi. Barnai nad oedd dim i'w gollu drwy wneud cais am gyllid, a'i fod yn hapus iawn bod yr arian cyfalaf wedi dod i law.

3. Cynnal adolygiad corfforaethol o ble ddylai ein blaenoriaethau fod yn y dyfodol gyda chyfranogiad yr Aelodau, y staff a'r rhanddeiliaid fydd yn ystyried sut all yr Awdurdod Parc Cenedlaethol gwrdd â'r heriau i'r Parc Cenedlaethol a'r cymunedau lleol o ymateb i COVID-19, Brexit a ffactorau eraill.

Nid oedd unrhyw gamau ymlaen wedi'u cymryd ar yr amcan hwn oherwydd yr anhawster o gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Anogodd yr Aelodau y Prif Weithredwr i fynd ati i wireddu'r amcan hwn drwy drefnu cyfarfodydd ar-lein gyda'r Aelodau yn ogystal â defnyddio ffurfiau eraill o dechnoleg gan gynnwys mwnci arolwg. Cyfeiriwyd at y manteision o drefnu trafodaethau grwpiau bychain, yn ogystal â'r posibilrwydd o drafod gyda'r Aelodau fesul un. Cytunwyd y byddai arolwg ymhlith pob Aelod yn fan cychwyn defnyddiol i gasglu gwybodaeth am egwyddorion lefel uchel i lunio set corfforaethol o flaenoriaethau.

Cyfeiriwyd at yr argymhellion yn adroddiadau'r archwilwyr, oedd, fel archwilwyr, wedi cyfeirio at y cynnydd mawr yn y gweithgareddau, ac oherwydd hynny bod angen i'r Awdurdod gael trefn arnynt a'u prif-frydio – gan ganolbwyntio ar flaenoriaethau. Bu'r Prif Weithredwr yn cyfeirio'n ôl at y cyfleoedd oedd ar gael i'r Awdurdod gan nad ydym wedi ein cyfyngu i gylch gwaith statudol i'r un graddau â'r hyn sy'n wir am awdurdodau lleol.

4. Datblygu a gweithredu mentrau ar dir ac ar fôr i alluogi'r Awdurdod gynorthwyo i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod wedi mabwysiadu ei gynllun ar newid hinsawdd yn ystod y cyfnod hwn o adrodd yn ogystal ag ail-ffocysu ar y rhaglen grantiau SDF i gydweddu â'r cynllun hwnnw.

Dywedodd bod yr Adferiad Gwyrdd wedi'i ddiffinio'n wael a bod mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn gofyn am drafodaeth gydag aelodaeth ehangach yr Awdurdod. Un dewis yn ei adroddiad oedd edrych ar ymestyn ein pwerau gorfodi gan ei fod o'r farn y gallai hyn fod yr amser iawn i godi hyn gyda Llywodraeth Cymru petai'r Aelodau yn cefnogi gwneud hynny. Bu trafodaeth wedyn ar y cydbwysedd o ddefnyddio addysg, anogaeth a gorfodaeth, a chytunodd yr Aelodau bod pob un o'r rhain yn bwysig o ran gwarchod a gwella'r Parc. Fodd bynnag, cytunwyd bod gwahaniaeth rhwng y wybodaeth sydd eisoes gan ddefnyddwyr lleol/ defnyddwyr cyson y parc, a gwybodaeth ymwelwyr newydd/ un-tro oedd yn llai cyfarwydd â'r Cod Morol, cod cefn gwlad a gwybodaeth o'r ardal. Un enghraifft o hyn oedd y defnydd a wneir o jet-skis a'r effaith ar y morloi. I ddefnyddwyr cyson, roedd y Fforwm Mynediad yn ddefnyddiol yn ogystal â'n rhaglen addysg. Cytunwyd bod rheoli mynediad yn gam mawr diwylliannol, ond yn arf a ddefnyddir mewn Parciau eraill.

Yn fwy cyffredinol, soniodd y Prif Weithredwr am yr heriau economaidd oedd ar droed ac sy'n fwy heriol fyth yn sgîl covid 19, gan gyfeirio'n arbennig at y polisi Ffermio Cynaliadwy a'r heriau a wynebhir gan y trydydd sector megis Yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt.

5. Sicrhau bwrw ymlaen â datblygu strwythur Rheoli Cyrchfannau.

Yn ogystal â'r amlinelliad yn adroddiad y Prif Weithredwr, rhoddodd ddiweddariad i'r pwyllgor bod y Prif Weithredwr ar fin cael ei benodi. Yn y tymor hirach, roedd yn anorfod y byddai'r cwestiwn Coast to Coast yn codi'i ben, ond ar hyn o bryd roedd wedi dweud wrth aelodau'r staff am gario ymlaen fel arfer.

6. Cefnogi iechyd a lles y staff drwy gynorthwyo'r Rheolwr Adnoddau Dynol i gynnal adolygiad ac ymgynghori ar bolisïau ac arferion AD, gan gynnwys ymrwmo i Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru.

Roedd y Prif Weithredwr wedi dosbarthu canlyniadau'r arolwg staff cyn y cyfarfod. Dywedodd bod y gyfradd ymateb, ar y cyfan, wedi bod yn 80% a bod y staff, ar y cyfan, wedi ymateb yn dda. Barnai'r Aelodau bod rhai o'r ymatebion yn peri gofid, yn enwedig y rhai am y diffyg gweithio ar draws yr

adrannau, y diffyg cyfathrebu a'r diffyg gwrando. Tra bod rhai atebion fel petaent yn gwrth-ddweud ei gilydd mewn rhai achosion, roedd rhai themâu cyffredin ar gyfathrebu, cyfranogi, ac ymddiriedaeth yn y pwyllgor gwaith, yn ogystal â 50% yn chwilio am swydd arall, oedd yn parhau yn fater gofid. Holodd yr Aelodau beth fyddai'r camau nesaf, a dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'n trefnu grwpiau ffocws gyda'r staff i ymchwilio i'r hyn sydd wrth wraidd y themâu a'r materion a godwyd. Hefyd awgrymwyd y gallai fod rôl i'r Pwyllgor Personnel dderbyn adroddiad ar waith dilynol.

7. Datblygu a gweithredu cynigion i gyflwyno ffyrdd effeithlon o weithio sy'n lleihau costau ac ôl troed carbon yr Awdurdod.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod dulliau newydd a mwy effeithlon o weithio wedi'u cyflwyno ar garlam yn ystod y pandemig covid19. Eglurodd y byddai bwrdd gwyn newydd yn cael ei osod yn Ystafell y Bwrdd, ac y bydd gennym ddull deublyg o weithio lle fydd rhai Aelodau yn bresennol yn yr ystafell ac eraill yn bresennol yn rhithiol.

8. Cefnogi gwaith tuag at Siarter Uwch Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Aelodau.

Roedd 10 o'r 18 Aelod wedi cwblhau eu hadolygiad perfformiad, a holodd yr Aelodau a yw hyn yn ddigon i wneud cais am y siarter uwch. Roedd cynnig y cyfle i'r Aelodau yn ddigon i fodloni'r meini prawf.

Gofynnodd yr Aelodau i'r Prif Weithredwr a oedd wedi clustnodi unrhyw feysydd o ran hyfforddiant i'r Aelodau, a bod pryderon ynghylch glynu at y polisïau yn y CDLI, unwaith y mabwysiedir hwy, yn un o'r meysydd hynny. Bu trafodaeth ar y ffyrdd o ddatblygu'r Aelodau, a chytunwyd i drefnu seminar ar y CDLI.

9. Gweithio gyda Phartneriaid i ddylanwadu'n gadarnhaol ar bolisïau sy'n ymwneud â thirweddau dynodedig sy'n arwain at etholiad y Cynulliad Cenedlaethol yn 2021 ac wedi hynny.

Amlinellodd y Prif Weithredwr ei feddyliau cyntaf ynghylch ymgysylltu ag Aelodau'r Cynulliad a gwleidyddion yn y cyfnod sy'n arwain at yr etholiadau, ac eglurodd y cydweithio gyda'r Parciau eraill i ymgysylltu â'r prif bleidiau gwleidyddol.

Cynigiodd yr Aelodau sawl awgrym ar ymgysylltu â'r ACau drwy webinarau/ sgysiau ar bynciau – gan fod y rhain yn gyfryngau defnyddiol yn ystod y cyfnod clo i sefydliadau eraill.

Mynegodd Aelod arall siom ynghylch yr adroddiad ar barsel o dir yr Awdurdod, ac ymatebodd y Prif Weithredwr drwy nodi rhai o'r cyfleoedd allai godi.

10. Cynnwys y Cadeirydd i gytuno ar eitemau priodol i'w rhoi ar agenda, a bod yn gyfrwng i'r Aelodau godi materion.

Cytunodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr bod camau ar waith i wireddu'r amcan hwn. Dymuniad y Cadeirydd oedd gweld mwy o'r Aelodau yn cyfranogi drwy gyfrannu gwybodaeth i'r materion y dylid eu trafod. Awgrymodd un Aelod agenda dwy haen lle mae papurau penderfyniadau yn dod gyntaf a phapur mwy naratif/ cynhwysfawr i ddilyn. Gallai papurau eraill er gwybodaeth fod islaw'r llinell. Roedd Rhybudd o Gynnig yn fecanwaith ffurfiol i sicrhau bod eitem yn cael ei chynnwys ar agenda, ond roedd yr Aelodau o'r farn bod ysbryd yr amcan hwn yn ddull mwy cadarnhaol a rhagweithiol.